# CYNGOR CYMUNED LLANWINIO COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio nos Fercher y 3ydd o Ionawr 2024 am 8.00pm yn Neuadd Llanwinio.

**PRESENNOL**: Cynghowyr Iori Saer (Cadeirydd), Dorian Lewis, Sarah Pask, Christopher Smoothy, Huw James a Wyn Evans & Cynghorydd Sir Jean Lewis

**YMDDIHEURIADAU**: Y Cynghorydd Geraint Evans

**CYMHERWYD Y COFNODION GAN Y CLERC**: Liza Jones

**2: COFNODION**: Darllenwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 1af o Dachwedd 2023, fe'u derbyniwyd a'u cofnodi fel rhai cywir.

**3. DATGAN BUDD:** Cynghorydd Sir Jean Lewis - eitem 10, Cynllunio

**4: MATERION YN CODI:**

Mi'r oedd y diffibriliwr newydd wedi cael ei osod yng Nghwmfelinmynach ac roedd yr arwyddion i'r blwch ffôn yn Blaenwaun yn nodi fod diffibriliwr yno wedi cael ei gosod hefyd. Cadarnhawyd mae goflawyr y diffibrilwyr oedd Ann Wattling a Ross Gallie yn y drefn honno.

Roedd y Cynghorydd Christopher Smoothy wedi danfon ymlaen yr amcan pris olaf ar gyfer yr offer newydd i Barc Chwarae Blaenwaun. Cytunwyd i symund ymlaen gyda'r gwaith o osod llinell zip, siglen fasged a Thŵr gweithgaredd am £37,000 yn cynnwys TAW. Byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau erbyn y gwanwyn. Cytunodd y Cynghorwyr gyfarfod ar y parc yn yr wythnosau nesaf i ddymchwel a gwaredu yr hên offer anniogel.
Roedd yr arwyddion an atal cŵn i'r caeau chwarae wedi cael eu gosod ond roedd pobl dal yn mynd a'u cŵn yno. Byddai'r Cynghorydd Sir Jean Lewis yn gofyn i'r Cyngor Sir am gyngor.

**5: GOHEBIAETH**

1- Roedd y Cynghorydd Wyn Evans wedi danfon ebost i'r clerc yn nodi linc ar gyfer ymgeisio ar gyfer diffibriliwr wrth y Sylfaen Calon Prydeinig. Gan fod Cymuned Llanwinio yn codi arian ar hyn o bryd ar gyfer archebu diffibriliwr i Llanwinio, roedd y clerc wedi rhoi cais i mewn. Yn anffodus nid oedd y cais wedi bod yn llwyddiannus.
2- Roedd y swm perthnasol Adran 137 wedi cael ei dderbyn. Y swm am 2024-25 oedd £10.81 i bob etholydd.
3- Roedd y Cyngor Sir wedi danfon ebost yn nodi ei fod yn angenrheidiol i Gynllun Hyfforddiant y Cynghorwyr cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Adolygwyd y Cynllun Hyfforddiant ac fe'i dderbyniwyd i'w gyhoeddu.
4- Roedd swyddog o'r Cyngor Sir wedi cysylltu gyda'r clerc yn nodi nad oedd lleoliad priodol ar gael yng Nghwmfelinmynach ar gyfer gosod y golau stryd newydd. Roedd

Cynghorydd lleol wedi ymweld i sicrhau hyn ac wedi siarad gyda thrigolion lleol. Cytunwyd i beidio a pharhau gyda'r cais am olau stryd ychwanegol.

**5-** Roedd mesurydd clyfar newydd ar gyfer trydan wedi cael ei osod yn y Neuadd.

**6-** Cadarnhaodd Aaron Rodway drwy ebost ei fod wedi dechrau ar y cais o symud llwybr troed 19/70/1 i lôn Tyddyn.

**6: PRAESEPT:**

Ermwyn cwblhau y cais Praesept 2024-25, trafododd y Cynghorwyr cylludeb ar gyfer y flwyddyn i ddod. Yn dilyn trafodaeth manwl, cytunwyd i ofyn am Praesept 2024-2025 o £6000.

**7: DERBYNIADAU:**

| | |
|---|---|
| Tyrbein Gwynt – Plasparcau | £1137.33 |
| Tyrbein Gwynt – Rhydgoch | £3478.52 |
| Rhandaliad Praesept | £1333.33 |

**8: BILIAU:**

| | |
|---|---|
| Arwyddion Boomerang – Dim cŵn | £28.80 |
| Aled Jones – Contractiwr amethyddol – Torri Cloddiau Caeau Blaenwaun | £108.00 |
| Liza Jones – Cyflog y Clerc Hydref, Tachwedd, Rhagfyr | £840.00 |
| Ross Gallie – Cyflog y clerc blaenorol | £440.00 |
| D M Payroll Services Ltd | £104.00 |
| Adeiladwyr Dafydd Cox – atgyweirio'r Eglwys – fel cytunwyd yn flaenorol (£4500.00 a £2056.60 taw) | £6556.60 |

**9: ADRODDIAD ARIANNOL:**

| | |
|---|---|
| Cyfrif Busnes | £35,312.35 |
| Cyfrif Trysorydd | £13,404.92 |
| **Cyfanswm o** | **£48,717.27** |

**10: CYNLLUNIO:**

**PL/06854** –Cais ôl-weirthredol codi adeilad storio amaethyddol – Fronllan, Cwmbach, Hendygwyn, SA34 0DS. Ni chodwyd unrhyw bryderon.

**11: Unrhyw fater arall:**

Cadarnhaodd y Cynghorydd Sir Jean Lewis byddai gwaith ar yr heol ger Moriah yn cael ei wneud ar yr 8fed.

Codwyd pryderon am dyllau niferus ar yr heolydd. Cytunodd y Cynghorydd Sir Jean Lewis drefnu cyfarfod ar y cyd gyda'r Ardan Priffyrdd ac y Cynghorydd Huw James.

Gofynwyd i'r Adolygiad Cymunedol a Digwyddiad Swyddogol i agor y Parc Chwarae ar ei newydd wêdd cael eu trafod yn y cyfarfod nesaf.

**Cynhelir y cyfarfod cyffredinol nesaf nos Fercher y 6ed o Fawrth 2024 am 8:00pm yn Neuadd Gymunedol Llanwinio.**